



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG44701**

Llywodraeth Cymru

Cais am dystiolaeth – crynodeb o'r ymatebion

Y rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer ysgolion  
annibynnol

30 Mawrth 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-907-2

## Trosolwg

Trosolwg yw hwn o'r ymatebion i'r [Cais am Dystiolaeth](#) gan Lywodraeth Cymru i lywio ei hadolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru, ac i'w llywio hefyd yn ei bwriad i ddiweddarau ac adolygu'r canllawiau cofrestru a gweithredu ategol.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Bwyd Ysgol ac Ysgolion Annibynnol  
Cefnogaeth i Ddysgwyr  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 03000604400

E-bost: [BwydYsgolAcYsgolionAnnibynnol@llyw.cymru](mailto:BwydYsgolAcYsgolionAnnibynnol@llyw.cymru)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copiau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: [y rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol: cais am dystiolaeth](#)

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cwestiwn 1 – Pa newidiadau y gallwn eu gwneud i'r canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol i'w gwneud yn ffynhonnell fwy defnyddiol o gyngor a gwybodaeth i ysgolion annibynnol a darpar ysgolion annibynnol?	5
Cwestiwn 2 – A ddylid diweddarau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y perchnogion a'r staff yn fwy aml?	5
Cwestiwn 3 – A oes unrhyw bobl eraill a ddylai gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu y dylid cynnal gwiriadau eraill arnynt cyn y gallant weithio neu ddod i gysylltiad rheolaidd â dysgwyr yn yr ysgol?	6
Cwestiwn 4 – A fyddai modiwl hyfforddi newydd ar ofynion <i>Cadw dysgwyr yn ddiogel</i> wedi'i anelu'n benodol at ysgolion annibynnol o gymorth? A beth, yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes ar gael, y dylid ei gynnwys yn y modiwl?	6
Cwestiwn 5 – Pa fesurau ychwanegol y dylid eu cyflwyno i gynyddu diogelwch a lles dysgwyr megis hyfforddiant?	7
Cwestiwn 6 – Sut gallwn sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei glywed wrth ddatblygu polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt?	8
Cwestiwn 7 – Pa gamau ychwanegol y dylid eu cymryd i gryfhau arweinyddiaeth a threfniadau rheoli a llywodraethu ysgol?	8
Cwestiwn 8 – Sut dylid cyflawni'r camau ychwanegol hyn – drwy reoliadau ynteu ganllawiau?	9
Cwestiwn 9 - Pa gamau y dylai fod ar gael i Weinidogion Cymru i'w cymryd ac o dan ba amgylchiadau? (Er enghraifft os yw ysgol yn methu cydymffurfio gydag un neu fwy o'r safonau, neu os yw ysgol yn methu gweithredu ei chynllun gweithredu, neu os yw ysgol yn methu cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru).	10
Cwestiwn 10 - Pa newidiadau y mae angen eu gwneud yn eich barn chi i safon ansawdd yr addysg a ddarperir er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas ac anghenion dysgwyr ers i'r safonau cael eu gwneud?	11
Cwestiwn 11 – Pa newidiadau sydd eu hangen ar y rheoliadau a/neu'r canllawiau i ystyried model dysgu cyfunol?	12
Cwestiwn 12 – Pa gategorïau o staff ysgolion annibynnol y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg?	12
Cwestiwn 13 - Pa ffioedd y dylid disgwyl i unigolion sy'n gweithio yn y sector annibynnol eu talu?	13
Cwestiwn 14 - Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	13
Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?	14
Cwestiwn 15 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	14

Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, ychwanegwch nhw i'ch ymateb.

## Cyflwyniad

Ar 9 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gais am Dystiolaeth wyth wythnos a ddaeth i ben ar 4 Chwefror 2022 i lywio ei hadolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru, ac i'w llywio hefyd yn ei bwriad i ddiweddarau'r rheoliadau<sup>1</sup> ('y rheoliadau') a hefyd i adolygu'r [canllawiau cofrestru a gweithredu](#) ategol ('y canllawiau').

Cyn cyhoeddi'r Cais am Dystiolaeth ffurfiol, cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu ym mis Tachwedd 2021. Gwahoddwyd ysgolion annibynnol i fynychu un o bedair sesiwn rithiol a gwahoddwyd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i gyfarfod ar wahân. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gydag Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Chomisiynydd Plant Cymru.

Mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, cafodd Llywodraeth Cymru 11 o ymatebion ysgrifenedig gan y canlynol (mae rhai enwau wedi'u dal yn ôl yn ôl y gofyn):

Ysgol Woodland  
TGP Cymru  
Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru  
Estyn  
CYSUR (Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru)  
Arolygiaeth Gofal Cymru  
Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru  
Cyngor y Gweithlu Addysg  
Comisiynydd Plant Cymru  
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Daeth 26 o ysgolion i un o'r pedair sesiwn ymgysylltu ar gyfer ysgolion annibynnol a daeth 7 Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid eraill i'r sesiwn ymgysylltu ar wahân.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd a hefyd i'r rhai a ddaeth i'r sesiynau ymgysylltu. Bydd

---

<sup>1</sup> [Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol \(Cymru\) 2003](#)  
[Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Darparu Gwybodaeth\) \(Cymru\) 2003](#)  
[Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Cymeriad Crefyddol Ysgolion\) \(Gweithdrefn Ddynodi\) \(Cymru\) 2003](#)  
[Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu\) \(Cymru\) 2003](#)  
[Rheoliadau Addysg \(Ysgolion Annibynnol\) \(Personau Anaddas\) \(Cymru\) 2009](#)  
[Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol \(Ysgolion Annibynnol\) \(Cymru\) 2009](#)

[Mae diwygiadau i'r rheoliadau yn cynnwys y rhai a wnaed gan Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Darparu Gwybodaeth\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2021](#)  
[Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Cymru\) 2007](#)

pob un o'r ymatebion yn cael eu hystyried a byddant yn sail i'r gwaith o ddatblygu rheoliadau a chanllawiau drafft a fydd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad pellach.

Nod y ddogfen hon yw crynhoi'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd a'r sylwadau a wnaed yn ystod y sesiynau ymgysylltu. Nid yw'n ceisio cyfleu'n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Gofynnwyd 16 o gwestiynau yn y Cais am Dystiolaeth ac mae'r ymatebion i bob cwestiwn wedi'u crynhoi isod. Mae materion a godwyd ond nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cais am Dystiolaeth wedi'u nodi ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn rhan o'r crynodeb hwn o'r ymatebion.

## **Cwestiwn 1 – Pa newidiadau y gallwn eu gwneud i'r canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol i'w gwneud yn ffynhonnell fwy defnyddiol o gyngor a gwybodaeth i ysgolion annibynnol a darpar ysgolion annibynnol?**

Cafwyd 7 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen diweddarau'r canllawiau cofrestru a gweithredu i fod yn gliriach, yn fwy hygyrch ac i gyfeirio at y manylion cyswllt a'r polisiau diweddaraf.

Yr awgrymiadau cyffredin ar gyfer newidiadau oedd:

- angen diweddarau cyfeiriadau at hen ddeddfwriaeth a hen ganllawiau er mwyn helpu ysgolion i ddeall y gofynion presennol;
- croesyfeirio'r canllawiau i'r Safonau perthnasol fel bod ysgolion yn deall gofynion pob Safon a'r hyn sydd ei angen i gydymffurfio;
- sicrhau bod cyfeiriadu clir at weithdrefnau diogelu, yn enwedig o ran chwythu'r chwiban ac adrodd ynghylch honiadau yn erbyn staff;
- nodi'n gliriach y gofynion yn y cam cofrestru cychwynnol gan gynnwys amserlenni a chymau gweithredu disgwylidig;
- rhoi mwy o arweiniad ynghylch pa bryd y dylai ysgol gyflwyno cais i gymeradwyo newid sylweddol ac egluro'r broses ar gyfer cael cydsyniad cyn rhoi newidiadau ar waith;
- darparu catalog o bolisiau templed, cynlluniau gweithredu a rhestr wirio awgrymedig y gall ysgolion eu defnyddio a'u haddasu ar gyfer eu lleoliadau eu hunain;
- sicrhau bod diffiniad clir o'r iaith a'r termau (fel perchennog) fel y gellir deall y canllawiau yn gliriach;
- gallai'r canllawiau gael eu hategu gan hyfforddiant i ysgolion fel rhan o'r broses gofrestru;
- darparu gwybodaeth am ffynonellau hyfforddiant sydd ar gael i ysgolion annibynnol ar faterion fel diogelu; a
- darparu eglurder ar ba wybodaeth y mae hi'n ofynnol i ysgolion ei gwneud ar gael i rieni ac i'r cyhoedd.

## **Cwestiwn 2 – A ddylid diweddarau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y perchnogion a'r staff yn fwy aml?**

Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y perchnogion a'r staff gael eu diweddarau'n fwy aml. Ar hyn o bryd, ar ôl i wiriadau manylach cychwynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu gwneud ar berchnogion a staff, nid oes gofyniad i ailadrodd y gwiriadau hyn tra byddant yn aros yn eu swyddi. Roeddent yn cytuno y byddai hyn yn cynyddu diogelwch, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed, ac yn sicrhau bod diogelwch yn flaenoriaeth i bob perchennog a phob aelod o staff.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai gwiriadau hefyd gael eu cynnal ar ôl cyfnod o absenoldeb estynedig sy'n para tymor neu hwy (fel secondiad neu gyfnod sabothol). Roedd hefyd yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i staff gwblhau datganiad anghymhwys blynyddol.

Dywedodd rhai bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ond yn rhoi cipolwg ar hanes person ac ond yn ddilys ar yr adeg y cânt eu cynhyrchu. Nid yw'n rhoi rhestr gyflawn o gofnod troseddol unigolyn.

### **Cwestiwn 3 – A oes unrhyw bobl eraill a ddylai gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu y dylid cynnal gwiriadau eraill arnynt cyn y gallant weithio neu ddod i gysylltiad rheolaidd â dysgwyr yn yr ysgol?**

Cafwyd 8 ymateb i'r cwestiwn hwn.

I sicrhau diogelwch pob dysgwr, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai pawb sydd mewn cyswllt rheolaidd â dysgwyr mewn lleoliad ysgol fod yn ddarostyngedig i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, boed y rheini yn wiriadau manylach neu fel arall. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r gwiriadau sy'n ofynnol gyfateb i'r rhai mewn ysgolion a gynhelir gan y dylai fod gan blant mewn lleoliadau annibynnol yr hawl i'r un graddau o ddiogelwch rhag niwed.

Awgrymwyd y dylai'r grwpiau o bobl a ddylai fod yn ddarostyngedig i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gynnwys y canlynol:

- staff dros dro neu staff asiantaeth;
- gwirfoddolwyr a chontractwyr;
- staff mewn darpariaeth breswyl;
- teuluoedd sy'n lletya a drefnir gan yr ysgol;
- staff therapiwtig;
- staff peripatetig a'r rhai a gyflogir i ddarparu gwaith cyflenwol yn yr ysgolion;
- staff llywodraethu yr ysgol, aelodau o fyrddau rheoli ac ymddiriedolwyr; a
- staff o sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau yn yr ysgol.

### **Cwestiwn 4 – A fyddai modiwl hyfforddi newydd ar ofynion *Cadw dysgwyr yn ddiogel* wedi'i anelu'n benodol at ysgolion annibynnol o gymorth? A beth, yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes ar gael, y dylid ei gynnwys yn y modiwl?**

Cafwyd 8 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai modiwl penodol ar gyfer ysgolion annibynnol o fudd. Teimlwyd y dylai'r hyfforddiant fod yr un fath â'r hyfforddiant ar gyfer ysgolion a gynhelir ond y dylai gynnwys modiwlau pwrpasol wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer ysgolion annibynnol sy'n gweithredu yng Nghymru.



Ymysg yr awgrymiadau o'r hyn y dylid ei gynnwys roedd:

- y defnydd o senarios penodol i ysgolion annibynnol;
- gwybodaeth am y gofynion o ran ymateb i honiadau o gam-drin;
- canllawiau ar ba bryd y dylai pryderon gael eu hatgyfeirio y tu hwnt i'r ysgol;
- sylw i les emosiynol a meddyliol dysgwyr;
- canllawiau mwy clir ar rôl perchnogion, penaethiaid a staff;
- dolenni clir i weithdrefnau diogelu;
- rôl eiriolwyr annibynnol o ran diogelu plant a phobl ifanc;
- alinio'r modiwl â'r sector gofal cymdeithasol i wella'r wybodaeth mewn ysgolion annibynnol;
- gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ar-lein;
- gwybodaeth am aflonyddu rhywiol gan gymheiriaid; a
- ffocws ar ddysgwyr mewn ysgolion preswyl.

Roedd dau ymatebydd o'r farn nad oedd angen penodol am hyfforddiant ychwanegol. Roedd y ddau ohonynt yn credu bod angen i bob polisi a dogfen ganllaw gael ei haddasu i ofynion unigol penodol pob ysgol mewn perthynas ag ysgolion annibynnol.

## **Cwestiwn 5 – Pa fesurau ychwanegol y dylid eu cyflwyno i gynyddu diogelwch a lles dysgwyr megis hyfforddiant?**

Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai staff mewn ysgolion annibynnol fod yn ddarostyngedig i'r un hyfforddiant â'r rhai mewn ysgolion a gynhelir, gyda hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob aelod o staff a gwirfoddolwr. Roedd rhai o'r farn y dylai disgyblion hefyd ymgymryd â hyfforddiant diogelu priodol ac y dylai diogelu fod yn amlwg drwy'r cwricwlwm. Dylai canllawiau clir fod ar gael i ddysgwyr a dylent gynnwys gwybodaeth am hawliau dynol, eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sut mae codi cwynion, y polisiau sydd ar waith yn y lleoliad a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai'r mesurau i ddiogelu dysgwyr fod yn debyg i'r rhai mewn lleoliadau a gynhelir ac y dylai'r berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol gael ei chryfhau. Ar gyfer plant mewn ysgolion preswyl yn benodol, amlygwyd y gellid cryfhau'r hyfforddiant mewn nifer o feysydd gan gynnwys darparu cod ymddygiad i staff yn cydnabod natur agored i niwed plant mewn ysgolion preswyl ac yn rhoi canllawiau clir ar ddiogelu i rieni. Roedd un ymatebydd yn teimlo ei bod yn bwysig ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol breswyl gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Roedd ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y dylid gosod mesurau ychwanegol i ymateb i fwlio ac aflonyddu, yn enwedig mewn perthynas â chofnodi achosion a phan fyddant yn ymwneud ag unigolyn/unigolion sydd â mwy nag un nodwedd warchoddedig. I adlewyrchu'r newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru i leihau arferion cyfyngol, awgrymodd dau ymatebydd y dylid cryfhau'r canllawiau ar

ddefnyddio'r arferion hyn a chynnwys gofyniad i gofnodi gwybodaeth am y defnydd o ataliaeth mewn lleoliadau annibynnol.

Roedd un o'r ymatebwyr yn awgrymu diwygio'r rheoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gwblhau modiwlau hyfforddiant diogelu ac i ymrwymo i ddiweddarau'r hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn cofrestru ysgol. Cafwyd un cais hefyd i gyflwyno dyletswydd statudol yn y rheoliadau er mwyn i'r perchennog roi gwybod i Lywodraeth Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, os yw'n briodol, o fewn amserlen benodedig am arolygiad Adran 5 o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014](#).

## **Cwestiwn 6 – Sut gallwn sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei glywed wrth ddatblygu polisiau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt?**

Cafwyd 9 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd dau ymateb yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r ysgolion yn ceisio sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei gynnwys mewn polisiau perthnasol. Roedd ymatebion eraill yn nodi bod hawl ddynol gan ddysgwyr i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt o dan Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, felly mae'n fwy na rhywbeth 'dymunol i'w gael'.

Awgrymwyd nifer o ddulliau gweithredu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisiau a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yr argymhelliad mwyaf cyffredin oedd i'r ysgol sefydlu cynghorau ysgol (neu rywbeth sy'n cyfateb) er mwyn i ddysgwyr allu lleisio eu barn a chyfrannu at y polisiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Roedd un ymatebydd yn awgrymu mai dim ond disgyblion cofrestredig ddylai fod yn aelodau a sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o bob blwyddyn o Flwyddyn 3 ac uwch. Roedd ymatebydd arall yn teimlo y dylai unrhyw ofynion newydd a gyflwynir gael eu hategu gan ganllawiau a hyfforddiant i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn helpu dysgwyr i ddeall sut y byddant yn cyfrannu. Roedd ymatebydd arall yn awgrymu y dylid ystyried cyflwyno gofynion i'w gwneud yn ofynnol i ddysgwyr mewn rhai lleoliadau fod yn rhan o gorff llywodraethu'r lleoliad, yn debyg i'r gofynion sydd ar waith mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd fel a nodir yn [Rheoliadau Cynghorau Ysgol \(Cymru\) 2005](#).

Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y byddai cael mynediad at wasanaeth eirioli annibynnol yn fuddiol i ddysgwyr. Byddai'n eu helpu i ddeall eu hawliau, gan ddarparu eglurder a hyder o ran eu gallu i leisio eu barn a chael eu clywed, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n gwneud iddynt deimlo'n anniogel. Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth mewn fformat clir a hygyrch er mwyn helpu dysgwyr i gyd-lunio cynlluniau a pholisiau a fydd yn effeithio arnynt.

## **Cwestiwn 7 – Pa gamau ychwanegol y dylid eu cymryd i gryfhau arweinyddiaeth a threfniadau rheoli a llywodraethu ysgol?**

Cafwyd 6 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Cytunwyd y dylai'r rheoliadau gyfeirio at rolau penodol fel termau 'perchennog' yn hytrach na thermau cyffredinol fel 'ysgol' i'w gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau cysondeb wrth gydymffurfio â'r safonau. Argymhellwyd hefyd y dylid cael unigolyn enwebedig ar gyfer pob ysgol wedi'i gymeradwyo gan y rheoleiddiwr, yn yr un modd â'r sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant.

Nodwyd mewn ymatebion y dylai'r rheoliadau fod yn glir ynghylch yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i arwain a rheoli ysgolion annibynnol. Byddai darparu mynediad i'r Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth ac adnoddau gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol hefyd yn fuddiol.

Oherwydd natur amrywiol ysgolion annibynnol, dywedodd ymatebwyr eu bod am i'r gwahaniaeth rhwng rolau fel perchnogion, ysgolion a phenaethiaid fod yn fwy eglur. Roeddent hefyd am weld gofynion clir yn y rheoliadau ynghylch gwybodaeth a phrofiad ar gyfer arwain a rheoli ysgolion sy'n cydnabod natur amrywiol yr ysgol. Er enghraifft, gallai profiad y staff a'r arweinyddiaeth sydd ei hangen mewn ysgolion arbennig lle mae'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn mynychu fod yn wahanol i ysgolion prif ffrwd.

Roedd un ymatebydd yn croesawu'r bwriad i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi ar ba sail y gellir rhoi cyfarwyddyd yn gwahardd person rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol yng Nghymru. Ystyriwyd y dylid cynnwys y meysydd canlynol megis unigolion hefyd yn cael eu gwahardd rhag gweithio fel rhan o'r tîm arwain mewn ysgol a gynhelir neu fel rhan o ddarpariaeth addysg ar-lein a chan gynnwys perchnogion ac aelodau o staff nad ydynt yn addysgu o fewn yr un diffiniad.

Roedd rhai argymhellion eraill yn cynnwys:

- dulliau i sicrhau bod gwiriadau a chydbwysedd ynghylch gwneud penderfyniadau yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau;
- gwybodaeth am ofal bugeiliol a sut y bydd yn cael ei ddarparu i hybu llesiant dysgwyr;
- gofynion o ran hyfforddiant diogelu;
- canllawiau ar y gofynion sylfaenol ar gyfer llywodraethu;
- cyhoeddi strwythurau llywodraethu; a
- sicrhau bod unrhyw benodiadau yn cyd-fynd â chofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg a gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i wneud yn siŵr nad oes unrhyw bryderon ynghylch diogelu yn cael eu colli.

## **Cwestiwn 8 – Sut dylid cyflawni'r camau ychwanegol hyn – drwy reoliadau ynteu ganllawiau?**

Cafwyd 6 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid cryfhau arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu a rheoli ysgolion drwy reoliadau er mwyn sicrhau lefelau cydymffurfio na fyddai i'w gweld drwy ganllawiau. Byddai unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi drwy

arolygon a gellid cymryd camau pan ddaw methiannau i'r amlwg. I bob diben, byddai'n cryfhau atebolrwydd ar bob lefel.

Rhoddodd un ymatebydd enghraifft o'r weithdrefn a ddefnyddir yn Lloegr ac esboniodd fod diffyg sbardunau ar waith yng Nghymru i sicrhau bod cyfrifoldebau arwain a rheoli yn cael eu cyflawni yn y sector ysgolion annibynnol.

Awgrymodd ymatebydd arall y dylai'r rheoliadau nodi strwythur llywodraethu gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio, ynghyd â chynnwys mecanweithiau penodol er mwyn gwahanu dyletswyddau. Aeth ymlaen i egluro, er y dylai rheoliadau wahardd unigolion rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol, y byddai angen canllawiau clir i esbonio'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru a sut i wneud atgyfeiriad fel y gellid rhoi cyfarwyddyd.

O ran safonau dysgu, mae un ymatebydd yn awgrymu y dylai unrhyw reoliadau nodi'n glir y safonau sy'n ofynnol gan ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau cysondeb o ran galluogi dysgu o ansawdd uchel sy'n cynnwys gofyniad i leoliadau ystyried profiadau a safbwyntiau dysgwyr wrth werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

## **Cwestiwn 9 - Pa gamau y dylai fod ar gael i Weinidogion Cymru i'w cymryd ac o dan ba amgylchiadau? (Er enghraifft os yw ysgol yn methu cydymffurfio gydag un neu fwy o'r safonau, neu os yw ysgol yn methu gweithredu ei chynllun gweithredu, neu os yw ysgol yn methu cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru).**

Cafwyd 6 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd ymatebwyr o blaid cyflwyno mesurau cryfach i Lywodraeth Cymru ac roeddent yn cytuno y dylid cyflwyno fframwaith ymyrryd clir, gan ystyried ystod eang o amgylchiadau, er enghraifft, pan fo ysgol yn cwrdd â safonau addysgol ond nad yw perchnogion a'r tîm rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau neu eu cyfrifoldebau. Dylai hyn gynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth ag amserlenni penodol ar bob cam a manylion y sancsiynau posibl y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd.

Ymysg y sancsiynau a awgrymwyd roedd:

- rhoi hysbysiad gwella a hysbysiad cosb benodol;
- cael gwared ar yr unigolyn cyfrifol;
- rhoi ysgol dan fesurau arbennig;
- gwneud hyfforddiant staff yn orfodol;
- ei gwneud yn ofynnol gwneud newidiadau i strwythurau staff ac arweinyddiaeth;
- ei gwneud yn ofynnol i staff newydd gael eu cyflogi mewn rolau allweddol (neu aelodau nad ydynt yn staff newydd fel llywodraethwyr); a
- caniatáu i lywodraethiant gael ei drosglwyddo i leoliad arall neu fwrdd annibynnol dros dro.

Teimlwyd y dylid cadw'r opsiwn i'r Gweinidogion ddatgofrestru lleoliad pe byddai angen.

## **Cwestiwn 10 - Pa newidiadau y mae angen eu gwneud yn eich barn chi i safon ansawdd yr addysg a ddarperir er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas ac anghenion dysgwyr ers i'r safonau cael ei gwneud?**

Cafwyd 5 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Nododd ymatebwyr, er y gall ysgolion annibynnol ddarparu eu cwricwlwm eu hunain, dylai ddiwallu anghenion dysgwyr unigol a chysylltu â'r meysydd dysgu yn y cwricwlwm newydd i Gymru.

O ran Safon 1 (ansawdd yr addysg a ddarperir), gwnaed nifer o argymhellion a oedd yn cynnwys:

- ychwanegu diffiniad ar gyfer addysg lawnamser neu ddynodiad o'r oriau cyswllt disgwylidig;
- diweddarau'r safon i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru);
- ychwanegu cymhwysedd digidol i'r rhestr sgiliau hanfodol i adlewyrchu datblygiadau mewn technoleg ac arloesi digidol;
- cynnwys cyfeiriadau at ganllawiau gyrfaoedd priodol a phrofiadau cysylltiedig â gwaith i bob oedran;
- ystyried a ddylid gwneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad cwricwlwm gorfodol;
- codi lefel y disgwylid mewn safonau drwy newid y geiriad o 'priodol', 'digonol' neu 'boddhaol' i 'da';
- ymgorffori argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i brofiadau plant yn y sector annibynnol, drwy ei gwneud yn orfodol i addysg hawliau dynol gael ei hymgorffori yn addysg plant;
- gofyniad i bob aelod o staff sy'n addysgu yn y sector annibynnol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan sicrhau bod plant yn gwybod ac yn deall beth yw eu hawliau o dan y confensiwn;
- adlewyrchu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn y rheoliadau sy'n nodi dyletswydd ar bob aelod o staff i ystyried llesiant meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc;
- sicrhau bod y safonau newydd yn cydnabod ac yn gwarchod hawl pob plentyn i gael seibiant ac amser hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden priodol i'w hoedran, ac i gymryd rhan o'u gwirfodd mewn bywyd diwylliannol ac yn y celfyddydau (fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn); a
- sicrhau bod y dysgu yn herio gwahaniaethu a bod cynrychiolaeth amrywiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm fel bod gan ddysgwyr gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o fywyd a llwyddiannau pobl anabl a phobl o wahanol ryw, rhywedd, hil, crefydd, oedran a rhywioldeb.

## **Cwestiwn 11 – Pa newidiadau sydd eu hangen ar y rheoliadau a/neu'r canllawiau i ystyried model dysgu cyfunol?**

Cafwyd 5 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Y consensws oedd bod angen i'r dysgu adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran COVID-19 a'r angen i fod yn hyblyg o ran y dull dysgu cyfunol. Mae'n ymddangos bod tystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion wedi cynnig dulliau gwahanol yn dilyn eu profiadau yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, nodwyd bod angen dull cytbwys o sicrhau bod anghenion unigol pob dysgwr yn cael eu diwallu.

Awgrymodd ymatebydd y dylid cryfhau'r rheoliadau a'r canllawiau i gyfeirio at ansawdd yr addysgu ar-lein. Dylai fod angen eu haddasu hefyd i gefnogi'r broses o gofrestru ysgolion ar-lein sydd ar hyn o bryd yn gweithredu ar wahân i'r broses gofrestru arferol. Nododd ymatebydd arall fod iechyd a diogelwch dysgwyr yn berthnasol i ddysgwyr ar-lein ac awgrymwyd y dylid cynnwys y canllawiau ynghylch ffrydio gwersi yn fyw yn Cadw dysgwyr yn ddiogel mewn canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol.

## **Cwestiwn 12 – Pa categorïau o staff ysgolion annibynnol y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg?**

Cafwyd 8 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Y consensws cyffredinol oedd y dylai fod yn ofynnol i bob aelod o staff mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Byddai hyn yn sicrhau bod y broses yn cyd-fynd â'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion a gynhelir a byddai'n gam ychwanegol tuag at ddiogelu dysgwyr. Yn ogystal â'r holl staff addysgu, dylai fod yn ofynnol hefyd i'r rhai mewn rolau arwain gofrestru.

Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai hyn yn sicrhau y glynir wrth y cod ymddygiad proffesiynol ac y caiff safonau ymysg staff addysgu eu cynnal a'u gwella. Byddai hefyd yn atal staff sydd wedi'u disgyblu drwy Gyngor y Gweithlu Addysg rhag symud i ysgolion lle na fyddai'r gwiriadau hyn yn cael eu cynnal.

Cadarnhaodd un ymatebydd fod dau gategori cofrestru ar hyn o bryd, sef "athro ysgol" a "staff cymorth dysgu". Mae cofrestru'n seiliedig ar y 'gwasanaethau' y mae'r unigolyn yn eu darparu yn hytrach na theitl gwirioneddol y swydd. Esboniwyd bod unigolion nad oes ganddynt Statws Athro Cymwysedig (SAC) wedi'u cofrestru fel staff cymorth dysgu mewn ysgolion a gynhelir. Fodd bynnag, roedd achosion mewn ysgolion annibynnol lle'r oedd y rhai heb SAC yn gweithio fel athrawon.

Amlygwyd mewn ymatebion bod niferoedd cynyddol o staff nad oedd ganddynt gymwysterau addysgu ond a fyddai'n dod i gysylltiad â dysgwyr. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys, er enghraifft, hyfforddwyr chwaraeon ac athrawon cerddoriaeth peripatetig. Awgrymwyd y dylai'r unigolion hyn gael eu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu

Addysg ac y dylid hefyd ystyried cynnwys y rhai sy'n cludo disgyblion i ysgolion annibynnol fel gyrwyr tacsis a bysiau mini.

Roedd ymatebydd arall am weld staff sy'n cefnogi dysgwyr mewn ysgolion preswyl yn cofrestru naill ai gyda Chyngor y Gweithlu Addysg neu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithwyr gofal cymdeithasol, yn unol â staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid diwygio rheoliadau'n ehangach er mwyn ystyried gweithlu'r myfyrwyr a'r gallu i gofrestru athrawon dan hyfforddiant a gweithwyr ieuenctid.

Mynegwyd pryder mewn un ymateb y gallai'r gofyniad i gofrestru staff gyda Chyngor y Gweithlu Addysg arwain at orfod cyflogi unigolyn cofrestredig yn hytrach na'r person gorau ar gyfer y swydd.

Dechreuodd ymgynghoriad pellach ar y gofyniad i rai staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol ar 1 Mawrth 2022. Bydd yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau 12 a 13 yn cael eu bwydo i'r broses honno. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori [yma](#).

### **Cwestiwn 13 - Pa ffioedd y dylid disgwyl i unigolion sy'n gweithio yn y sector annibynnol eu talu?**

Cafwyd 7 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai ffioedd a delir gan gofrestryddion yn y sector annibynnol gyfateb i'r rhai a delir gan staff mewn ysgolion a gynhelir. Tynnwyd sylw at y ffaith y gall unigolion symud rhwng y sector a gynhelir a'r sector annibynnol felly byddai'r ddau sector yn elwa ar ehangu'r gofrestr.

Tynnwyd sylw mewn rhai ymatebion at y ffaith nad yw ysgolion annibynnol ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon na hyfforddiant Athrawon Newydd Gymhwysu er bod yr un ffioedd yn cael eu talu. Nodwyd bod hyn yn rhwystro rhai o staff yr ysgol rhag ymuno â Chyngor y Gweithlu Addysg.

Nodwyd y dylai staff sy'n cefnogi plant mewn ysgolion preswyl naill ai fod wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg neu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithwyr gofal cymdeithasol yn unol â staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal. Felly, dylai'r ffioedd gyfateb i'r rhai hynny.

### **Cwestiwn 14 - Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd**

**i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Cafwyd 7 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr holl ymatebwyr yn gefnogol ac yn ystyried y cynigion yn gyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

Nododd llawer na fyddai unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion annibynnol. Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith y dylai plant gael cyfleoedd i gymryd rhan yn niwylliant y genedl ddwyieithog y maent yn byw ynddi ac y dylai safonau geisio sicrhau hyn.

Awgrymwyd efallai y byddai Llywodraeth Cymru am adolygu'r canllawiau ar gyfer lleoliadau dysgwyr a ariennir yn gyhoeddus mewn ysgol ac ystyried darparu'r Gymraeg fel rhan o'r trefniadau cytundebol ar gyfer y lleoliad hwnnw.

O ran effeithiau negyddol, nododd un ymatebydd y gallai fod yn anodd recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r sector.

**Cwestiwn 15 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cafwyd 4 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ychydig iawn o adborth a gafwyd i'r cwestiwn hwn o'i gymharu â'r cwestiwn blaenorol a oedd hefyd yn ymwneud â'r Gymraeg.

O'r ymatebion a gafwyd, nododd ymatebwyr y dylid cael adrannau yn y rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nodwyd hefyd bod y disgwyliadau'n glir ac yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Teimlwyd na fyddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol nac effaith negyddol.

**Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, ychwanegwch nhw i'ch ymateb.**



Cafwyd 8 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Teimlai ymatebwyr y dylid adolygu'r rheoliadau a'r canllawiau'n barhaus er mwyn cynnwys y datblygiadau polisi diweddaraf, er enghraifft, y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. O ran diweddariadau i'r canllawiau presennol, dylid ystyried cynnwys gwersi a ddysgwyd o'r Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ychwanegu diogeliadau amddiffyn rhyddid a datblygu rheoliadau ar gyfer ysgolion arbennig preswyl o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ychwanegu hyperddolenni drwy'r canllawiau i gysylltu â'r polisiâu diweddaraf y cyfeirir atynt.

Cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch geiriad a fformat y rheoliadau a'r canllawiau. Roedd ymatebwyr o blaid cael mwy o gysondeb ac eglurder o ran y geiriad a'r derminoleg a ddefnyddir, er enghraifft, egluro'r hyn a olygir wrth ymadroddion fel 'hyrwyddo' a 'rhoi sylw i'. Dylid codi lefel y disgwyliadau yn y canllawiau drwy ddefnyddio termau fel 'da' yn hytrach na 'priodol' neu 'boddhaol' sy'n creu amwysedd ynghylch lefel y disgwyliad. Un argymhelliad oedd darparu geirfa neu droednodyn i ddiffinio unrhyw derminoleg a/neu gyd-destun cyfreithiol.

Cafwyd sylwadau eraill am yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y dogfennau a nodwyd y dylid symud oddi wrth gydymffurfio a sicrhau ffocws cryfach ar ansawdd y ddarpariaeth.

Argymhelliad arall oedd rhannu'r rheoliadau'n ddwy adran – un i ystyried a oes gan yr ysgol arfaethedig y dogfennau a'r adeiladau cywir ar waith, yr ail i archwilio ansawdd y ddarpariaeth a'r gweithredu.